Cofnodion cyfarfod y **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHEREDIGION** a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda **ddydd Mercher, 26 Ionawr 2022**

YN BRESENNOL:
Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorwyr Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason a Lynford Thomas

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon: Miss Joyce Howells (NASUWT) (Cadeirydd)

Enwadau Crefyddol: Yr Athro Densil Morgan, Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Parchedig Aled Jones, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Yr Athro John Tudno Williams, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Anna Uruska, Yr Eglwys Gatholig, Y Parchedig Mark Ansell, Yr Eglwys yng Nghymru

Aelodau Cyfetholedig: Yr Athro Catrin Williams a Mr Maldwyn Pryse

Yn cynrychioli'r Sector Cynradd:

Hefyd yn bresennol: Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(4:00pm-5:00pm)

1 Gweddi
Dechreuodd y cyfarfod gyda'r Parchedig Aled Jones yn arwain y pwyllgor mewn gweddi.

2 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd Mr Eirwyn Griffiths am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

3 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion hynny
CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 yn gywir.

Materion yn codi
Dim.

4 Diweddariad ynghylch y seddi gwag ar y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)
Nododd y Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion fod Mr Maldwyn Pryse wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn aelod cyfetholedig o'r pwyllgor. Estynnodd pawb groeso iddo i'r pwyllgor fel aelod gwerthfawr a phrofiadol.

5 **Trafod y trefniadau ar gyfer Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig**

Ystyriwyd y trefniadau ar gyfer Cynhadledd y Maes Llafur Cytunedig. Yn gyntaf cyflwynwyd crynodeb i'r pwyllgor ynghylch gofynion cyfreithiol y Maes Llafur Cytunedig ac yna cytunwyd ar y canlynol:-

- dylai'r Rheolwr Corfforaethol barhau i chwilio am gynrychiolydd Dyneiddiol ar gyfer y pwyllgor;
- dylai'r Rheolwr Corfforaethol gysylltu â'r cynrychiolydd Mwslimaidd a awgrymwyd gan y pwyllgor;
- dylid gwahodd y ddau i'r Gynhadledd yn unol â hynny;
- dylid ystyried paratoi pecynnau ategol ar gyfer ysgolion ynghylch y maes llafur addysg grefyddol gan fod y maes llafur newydd yn annigonol ac oherwydd bod angen cynnwys cyfeiriadau at hanes a materion lleol yn y deunydd addysgu. Nododd y Rheolwr Corfforaethol fod deg athro wedi'u cyflogi yng Nghymru i wneud y gwaith ynghlwm wrth y cwricwlwm, a byddai angen ystyried os ydy'r deunydd a ddarperir ganddynt yn ddigonol cyn paratoi pecynnau ychwanegol;
- dylid darparu atodiad i'r maes llafur gyda chyfeiriadau at bethau lleol o ran addysg grefyddol;
- dylid darparu'r maes llafur ar ffurf pdf i bob Aelod gyda rhifau ar y tudalennau er mwyn i'r darllenydd allu cyfeirio ato'n hawdd;
- dylid cynnal y Gynhadledd am 2pm ddydd Gwener, 04 Mawrth 2022;
- dylai Miss Joyce Howells gadeirio'r Gynhadledd; a
- chytunodd yr holl Aelodau ar yr agenda drafft ar gyfer y Gynhadledd fel y'i cyflwynwyd.

Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) a gynhaliwyd ar

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____